# Patrice Lawrence

## Cwestiynau i'w trafod

### ORANGEBOY

*'Don't admit, don't deny, shut your mouth like the FBI...'*


Mae Marlon wedi'i ddal rhwng yr hyn y mae ei frawd wedi dysgu iddo a'r hyn y mae ei fam yn ei annog i'w wneud. A ddylai fod wedi dweud wrth yr heddlu mai Sonya oedd piau'r pils? Pam y mae pobl yn cael eu beirniadu am 'brepian'?

Mae Sonya, Marlon, D-Ice, Mrs Steedman a Tish yn rhoi eu hunain mewn perygl oherwydd eu ffyddlondeb i'w ffrindiau a'u teuluoedd. Pa mor bell fyddech chi'n mynd i amddiffyn y bobl sy'n annwyl i chi?

Mae Sonya yn dweud wrth Marlon y gallai fod yn llawfeddyg ar yr ymennydd ac mae'n chwerthin arni. Ydych chi'n meddwl bod hynny'n bosibl i Marlon? Os nad ydych, pam ddim?

*'Not cool enough, not clever enough, not street boy enough for anyone to take notice.'* Pa grwpiau neu gliciau ydych chi wedi dod ar eu traws yn eich bywyd? Ydych chi'n cael eich ystyried yn aelod o grŵp? Os ydych, pa argraff ydych chi'n meddwl sydd gan bobl ohonoch?

Mae cerddoriaeth yn bwysig i Marlon, yn enwedig gan ei bod yn ei gysylltu â'i dad. Beth mae cerddoriaeth yn ei olygu i chi? A oes caneuon sy'n eich atgoffa chi o ffrindiau neu deulu? Pa gân fyddech chi'n ei phasio ymlaen i'r genhedlaeth nesaf a pham?



'It was easy for the thing to wake up, scrabbling and hooking her insides, heaving itself through her.'




## INDIGO DONUT

'Y peth' y mae Indigo yn galw ei dicter. Pam ydych chi'n meddwl y mae'n gwneud hyn?

Daw Bailey ac Indigo o deuluoedd gwahanol iawn. Beth mae'r gair 'teulu' yn ei olygu i chi? Allwch chi feddwl am deuluoedd sy'n wahanol i'ch teulu chi? Beth ydych chi'n ei hoffi am y teuluoedd hyn?

Mae galar yn thema sydd i'w gweld drwy Indigo Donut. Ydych chi wedi helpu rhywun sy'n galaru, neu ydych chi wedi cael profiad o alar yn eich bywyd eich hun? Sut gwnaethoch chi ymdrin â'r sefyllfa? Ydych chi'n meddwl bod galar yn berthnasol i amgylchiadau heblaw pan fydd rhywun yn marw?

Eicon Indigo yw Debbie Harry. Mae'n gwisgo fel hi ac wrth ei bodd â'i cherddoriaeth, ond mae hefyd yn uniaethu â Debbie gan y bu hithau mewn gofal maeth hefyd. Oes gennych chi unrhyw eiconau rydych chi'n eu hedmygu? Sut maen nhw'n dylanwadu arnoch chi?

Mae Bailey ac Indigo yn mwynhau paru eu dewisiadau cerddorol â'u hwyliau. Ydych chi'n gwneud hyn hefyd? Allwch chi feddwl am unrhyw ganeuon sy'n cyfateb i emosiynau penodol?

# ROSE, INTERRUPTED

Pam ydych chi'n meddwl y mae Rose yn dechrau gwisgo yn null 'fairy kei' ar ôl gadael y 'Pilgrims'? Oes gennych chi unrhyw ffordd benodol o fynegi pwy ydych chi?

Ydych chi'n meddwl bod pobl ifanc yn cael eu helpu digon i ymdrin ag ochr negyddol y cyfryngau cymdeithasol? Sut ydych chi'n ymdrin â hyn eich hun? Mae Rose yn troi at Bicchi Blogger a'r fforwm Cast Outs am gymorth. Sut gall y cyfryngau cymdeithasol fod yn gefnogol?

Beth fyddech chi'n ei wneud pe byddech chi yn sefyllfa Rudder? Pam ydych chi'n meddwl y gwnaeth o rannu'r llun? Sut ydych chi'n meddwl y gallai fod wedi ymdrin â'r sefyllfa'n wahanol?

Mae'n rhaid i Rose adael llawer o'r pethau y mae wedi dod yn hoff iawn ohonynt pan mae'n dychwelyd i'r 'Pilgrims'. Pa bethau yn eich bywyd chi fyddech chi'n cael trafferth eu gadael ar eu hôl pe byddai'n rhaid i chi wneud yr un dewis â Rose? Pam y mae'r pethau hyn yn bwysig i chi?

Mae Rose a Rudder yn ceisio dysgu rheolau eu byd newydd. Pe byddai rhywun â phrofiadau bywyd hollol wahanol i chi yn symud i'ch ardal ac yn ymuno â'ch ysgol, coleg neu weithle, pa reolau dealledig fyddai angen iddo ef/iddi hi eu gwybod i'w helpu i gyd-fynd â phawb arall?

